WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni gyda Llai: Gwasanaethau Hamdden – **Cyngor Sir Ddinbych**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1308A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ddinbych yn rhan o waith a berfformiwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2009 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

Roedd y tîm a gyflawnodd y Gwaith yn cynnwys Gwilym Bury, Charlotte Owen, Bethan Smith, Sara Jones a Jeremy Evans dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae buddsoddiad parhaus y Cyngor mewn cyfleusterau hamdden wedi sicrhau boddhad da ymhlith cwsmeriaid, ond roedd camau diweddarach yn ei drefniadau a oedd yn effeithiol fel arall ar gyfer ystyried dulliau cyflawni eraill wedi'u brysio, ac arweiniodd hyn at amharu ar drefniadau llywodraethu.


Adroddiad cryno 4

Crynodeb

Adroddiad manwl

Mae buddsoddiad parhaus y Cyngor mewn cyfleusterau hamdden wedi sicrhau boddhad da ymhlith cwsmeriaid, ond roedd camau diweddarach yn ei drefniadau a oedd yn effeithiol fel arall ar gyfer ystyried dulliau cyflawni eraill wedi'u brysio, ac arweiniodd hyn at amharu ar drefniadau llywodraethu 6

Ni fu unrhyw ostyngiad yn adnoddau gwasanaethau hamdden y Cyngor ers 2014-15 ac mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei gyfleusterau hamdden 6

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac mae'n ystyried eu cynaliadwyedd ariannol mewn modd effeithiol, ond mae camau penderfynu diweddarach wedi ymddangos yn frysiog sydd wedi amharu ar drefniadau llywodraethu 7

Mae gan y Cyngor drefniadau monitro perfformiad a llywodraethu cadarn, sy'n rhoi digon o gyfleoedd i swyddogion a chynghorwyr herio perfformiad gwasanaethau hamdden 9

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon â'r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cyngor yn defnyddio adborth gan gwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth 9

Atodiadau

Atodiad 1 – ffeithlun canlyniadau'r arolwg 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Mae'r adolygiad hwn yn ddilyniant i adroddiad cenedlaethol 2015 yr Archwilydd Cyffredinol Cyflawni gyda Llai – Gwasanaethau Hamdden. Mae'n ystyried effaith gostyngiadau yng nghyllid llywodraeth leol ar wasanaethau hamdden y Cyngor ac effeithiolrwydd trefniadau'r Cyngor o ran darparu'r gwasanaethau hynny.

2 Yn yr adroddiad hwn rydym yn defnyddio'r term gwasanaethau hamdden y cyngor i gyfeirio at wasanaethau chwaraeon a hamdden a ddarperir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (er enghraifft, dan warant cytundeb partneriaeth neu gontract). Mae hyn yn ymdrin â darpariaeth a rheolaeth canolfannau chwaraeon a hamdden yn unig, gan gynnwys cyfleusterau dan do ac awyr agored a chanolfannau dŵr a sych ar safleoedd ysgolion[1]. Nid yw ein diffiniad yn cynnwys nac yn ymwneud â gweithgareddau sy'n ymwneud â thwristiaeth, gwasanaethau llyfrgell, parciau/mannau agored, amgueddfeydd/treftadaeth na'r celfyddydau. Pan gaiff cyfleusterau chwaraeon a hamdden eu hystyried yn atyniad i ymwelwyr hefyd, megis Nova Prestatyn, rydym ni wedi eu cynnwys yn yr adolygiad.

3 Yn adroddiad cenedlaethol 2015, nodwyd yn gadarnhaol gennym am weithgareddau hamdden mewnol Cyngor Sir Ddinbych (y Cyngor). Adroddwyd bod y Cyngor yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hamdden yn fewnol. Er bod y Cyngor eisoes wedi trosglwyddo rhai gwasanaethau hamdden i Ymddiriedolaeth, nid oedd y trefniadau yn cynnig safon y gwasanaeth a ddisgwyliwyd a bu'n anghynaliadwy. Yn 2015, dewisodd y Cyngor wella'r gwasanaeth drwy gymryd darpariaeth uniongyrchol yn ôl yn fewnol gyda'r nod datganedig o wneud gwasanaethau hamdden yn hunangyllidol ac yn ganolog o ran gwella iechyd trigolion Sir Ddinbych. Mae'r Cyngor wrthi'n ystyried modelau darparu gwahanol ar gyfer ei wasanaethau hamdden a bydd yn penderfynu ym mis Mai 2019 a ddylai drosglwyddo'r gwasanaeth i gwmni masnachu awdurdod lleol.

4 Roedd yr adolygiad hwn yn ystyried:

- a oedd adnoddau gwasanaethau hamdden wedi lleihau ers ein hadroddiad yn 2014-15;
- Strategaeth Hamdden y Cyngor a pherfformiad y Cyngor yng nghyd-destun y weledigaeth a nodir yn y Strategaeth;
- trefniadau'r Cyngor ar gyfer ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth hamdden yn y dyfodol ac archwilio ac arfarnu modelau darparu gwahanol;
- trefniadau llywodraethu a monitro'r Cyngor sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaethau hamdden; a

[1] Mae canolfannau chwaraeon a hamdden Sir Ddinbych wedi'u lleoli yng Nghorwen, Rhuthun, Dinbych, y Rhyl, Llangollen, Llanelwy, a Phrestatyn. Mae rhai o'r canolfannau wedi eu cyd-leoli gydag ysgolion.

- barn y defnyddwyr gwasanaethau ar y gwasanaethau hamdden ac ar ba un a ydyn nhw'n gallu llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau.

5 Cafodd yr adolygiad ei gynnal gennym rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2019.

## Yr hyn y gwnaethom ei ganfod

6 Ceisiodd ein hadolygiad ateb y cwestiwn: A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth yn cynnig gwerth da am arian ac a yw'r pennu modelau ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden yn y dyfodol?

7 Yn gyffredinol, gwelsom fod: **Buddsoddiad parhaus y Cyngor mewn cyfleusterau hamdden wedi sicrhau boddhad da ymhlith cwsmeriaid, ond roedd camau diweddarach yn ei drefniadau a oedd yn effeithiol fel arall ar gyfer ystyried dulliau cyflawni eraill wedi'u brysio, ac arweiniodd hyn at amharu ar drefniadau llywodraethu**. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- ni fu unrhyw ostyngiad yn adnoddau gwasanaethau hamdden y Cyngor ers 2014-15 ac mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei gyfleusterau hamdden;
- mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac mae'n ystyried eu cynaliadwyedd ariannol mewn modd effeithiol, ond mae camau penderfynu diweddarach wedi ymddangos yn frysiog sydd wedi amharu ar drefniadau llywodraethu;
- mae gan y Cyngor drefniadau monitro perfformiad a llywodraethu cadarn, sy'n rhoi digon o gyfleoedd i swyddogion a chynghorwyr herio perfformiad gwasanaethau hamdden; ac
- mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon â'r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cyngor yn defnyddio adborth gan gwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd gennym yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor sicrhau nad yw'n amharu ar drefniadau llywodraethu drwy roi digon o amser i wneud penderfyniadau da a sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael mewn da bryd. Er enghraifft, drwy sicrhau digon o amser ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniadau. |

# Adroddiad manwl

## Mae buddsoddiad parhaus y Cyngor mewn cyfleusterau hamdden wedi sicrhau boddhad da ymhlith cwsmeriaid, ond roedd camau diweddarach yn ei drefniadau a oedd yn effeithiol fel arall ar gyfer ystyried dulliau cyflawni eraill wedi'u brysio, ac arweiniodd hyn at amharu ar drefniadau llywodraethu

### Ni fu gostyngiad yn adnoddau gwasanaethau hamdden y Cyngor ers 2014-15 ac mae'r Cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ei gyfleusterau hamdden

8 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom:

- nad yw'r Cyngor wedi cau unrhyw un o'i gyfleusterau chwaraeon a hamdden yn y pedair blynedd diwethaf. Yn hytrach, mae wedi canolbwyntio ar fabwysiadu ymagwedd fasnachol tuag at hamdden drwy fuddsoddi yn ei gyfleusterau a chynyddu aelodaeth ac incwm i wneud y gwasanaeth yn fwy hunangynhaliol.
- mai ychydig iawn o newid a fu yn nifer y staff, yn gyffredinol, ac mae'r telerau a'r amodau wedi aros yr un fath yn y gwasanaethau hamdden yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Nid yw'r Cyngor wedi newid telerau ac amodau'r staff i leihau costau ac nid oes unrhyw fwriad i wneud hynny.
- bod cyllidebau gwasanaethau hamdden wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd diwethaf: mae data Llywodraeth Cymru yn dangos bod gwariant refeniw gros Sir Ddinbych ar hamdden a chwaraeon wedi cynyddu 15% rhwng 2014-15 a 2017-18. O ganlyniad i hyn, mae gwariant refeniw hamdden fesul pen o'r boblogaeth y pumed uchaf yng Nghymru erbyn hyn.
- bod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi yn ei gyfleusterau, gan adnewyddu nifer o'r safleoedd presennol, gan gynnwys y ganolfan Nova ym Mhrestatyn, ac adeiladu SC2, parc dŵr newydd yn y Rhyl. Mae data Llywodraeth Cymru[2] yn adlewyrchu'r buddsoddiad hwn: cynyddodd gwariant cyfalaf ar hamdden a chwaraeon 374% rhwng 2014-15 a 2017-18, gan wneud gwariant cyfalaf Sir Ddinbych fesul pen y boblogaeth yr uchaf yng Nghymru.

[2] Mae data Llywodraeth Cymru (stats wales-https://statswales.gov.wales/Catalogue) ar wariant yn cynnwys buddsoddiad mewn SC2, parc dŵr newydd yn y Rhyl nad yw'n rhan o ganolfan chwaraeon a hamdden ddinesig draddodiadol Sir Ddinbych. Drwy'r adroddiad hwn rydym wedi defnyddio data ariannol Llywodraeth Cymru.

- bod cyfanswm yr incwm o wasanaethau hamdden a chwaraeon wedi cynyddu 24% yn ystod yr un cyfnod. O ganlyniad i hyn, mae incwm hamdden Sir Ddinbych fesul pen y boblogaeth y trydydd uchaf yng Nghymru ar hyn o bryd.
- bod nifer o aelodau'r cyfleusterau hamdden wedi cynyddu 48% yn ystod y pedair blynedd diwethaf, sy'n awgrymu bod buddsoddiad y Cyngor yn ei gyfleusterau yn denu aelodau newydd ac yn rhoi hwb i incwm. Mae'r Cyngor hefyd wedi chwilio am ffyrdd arloesol o gynyddu ei incwm megis datblygu Fframwaith Hamdden y DU gyda phartner allanol, sy'n cynhyrchu incwm i'r Cyngor pan fo sefydliadau eraill yn defnyddio'r fframwaith.

## Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ar gyfer ei wasanaethau hamdden ac mae'n ystyried eu cynaliadwyedd ariannol mewn modd effeithiol, ond mae camau penderfynu diweddarach wedi ymddangos yn frysiog sydd wedi amharu ar drefniadau llywodraethu

9 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom:

- fod Strategaeth Hamdden y Cyngor a'r cynlluniau busnes blynyddol yn nodi blaenoriaethau clir ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden cynaliadwy o ansawdd uchel. Mae'r Strategaeth yn datgan: 'Erbyn 2020 bydd Sir Ddinbych yn adnabyddus am gyfleoedd hamdden hygyrch o ansawdd yn denu lefelau cyfranogiad uchel ac yn gwella lles ei thrigolion a'i hymwelwyr.'
- bod y model hamdden mewnol presennol yn cyflawni gweledigaeth y Strategaeth Hamdden yn rhannol:
  - mae nifer y bobl sy'n ymweld â chanolfannau hamdden a chwaraeon Sir Ddinbych i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol[3] wedi cynyddu 14% ers 2014-15. Mae hyn o'i gymharu â gostyngiad o 2% ar lefel Cymru gyfan yn ystod yr un cyfnod sy'n golygu mai'r Cyngor yw'r seithfed uchaf yng Nghymru.
  - mae cyfleusterau hamdden y Cyngor mewn cyflwr da ac mae digon o offer ganddynt.
  - mae arolygon diweddar Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyngor wedi canfod lefelau uchel o foddhad â gwasanaethau hamdden y Cyngor.
  - gall y Cyngor ddangos enghreifftiau o wella lles pobl drwy weithgareddau hamdden.
  - fodd bynnag, er bod incwm hamdden wedi cynyddu, mae gwariant wedi cynyddu hefyd, ac nid yw'r gwasanaeth yn ariannu ei hun eto.

[3] Fe'i ddiffinir fel nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden Sir Ddinbych yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.

- er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn ystyried modelau darparu gwahanol. Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Prosiect a Thîm Prosiect, sy'n rhoi strwythur effeithiol i archwilio'r dewisiadau a datblygu cynigion i'w cyflwyno i gynghorwyr. Mae hyn wedi helpu'r Cyngor i sicrhau bod achosion posibl o wrthdaro buddiannau posibl yn cael eu rheoli'n effeithiol. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor gofio y dylai'r rhai â buddiannau osgoi bod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod lle gwneir penderfyniadau. Nid yw'n ddigon iddynt beidio â siarad, gellir ystyried bod eu presenoldeb ynddo'i hun yn dylanwadu ar y canlyniad.
- mae'r Cyngor wedi bod yn drefnus ei hagwedd o ran adolygu a chymharu gwahanol ddewisiadau darparu posibl. Roedd y rhain yn cynnwys cadw'r gwasanaeth yn fewnol neu ar gontract allanol i'r sector preifat, ymddiriedolaeth hamdden neu gwmni masnachu awdurdod lleol.
- mae'r dewis y mae'r Cyngor yn ei ffafrio – cwmni masnachu awdurdod lleol, sy'n eiddo llawn i'r Cyngor – yn cyflwyno manteision ariannol amlwg. Gofynnodd y Cyngor am gyngor annibynnol o ran arbedion trethi. Roedd y cyngor hwn yn awgrymu y byddai Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ac arbedion TAW oddeutu £800,000 y flwyddyn, arbedion na fyddai'n bosib pe byddai'r Cyngor yn cadw'r gwasanaeth yn fewnol. Bydd y cwmni masnachu awdurdod lleol hefyd yn gallu bod yn fwy masnachol o ran eu gwerthiant, gan gynnig y cyfle i gynyddu incwm hamdden a lleihau cymhorthdal y Cyngor, a pharhau i fod dan reolaeth y Cyngor ar yr un pryd.
- mae'r manteision hyn wedi'u nodi'n glir mewn achos busnes sydd wedi'i gyflwyno i'r Cabinet. Rhannodd y Cyngor fersiwn ddrafft o'r achos busnes ag aelodau'r Cabinet mewn sesiwn friffio bythefnos cyn cyfarfod ffurfiol y Cabinet. Yna, rhannwyd fersiwn derfynol yr achos busnes â'r holl gynghorwyr yn rhan o bapurau'r Cabinet. Mae'r achos busnes yn fanwl ac yn cynnwys arfarniad dewisiadau o'r gwahanol fodelau o gwmnïoedd masnachu awdurdod lleol sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys yr arfarniad gwreiddiol o ddewisiadau a oedd yn ystyried yr holl fodelau darparu posibl. Byddai cynnwys yr arfarniad dewisiadau hwn yn atodiad i'r achos busnes yn gwella tryloywder ac yn sicrhau bod aelodau'r Cabinet yn cael gweld yr ystod lawn o ddewisiadau cyn penderfynu.
- mae'r Cyngor wedi cynnwys yr holl gynghorwyr yn weithredol drwy gydol y broses ac roedd gan y rhai y buom yn siarad â hwy lawer o wybodaeth am y cynigion. Fodd bynnag, oherwydd prinder amser o ran yr achos busnes terfynol, ychydig iawn o amser oedd gan aelodau craffu i ddarllen a deall yr holl wybodaeth ac ystyried a ddylai fod yn destun craffu cyn gwneud penderfyniad.

## Mae gan y Cyngor drefniadau monitro perfformiad a llywodraethu cadarn, sy'n rhoi digon o gyfleoedd i swyddogion a chynghorwyr herio perfformiad gwasanaethau hamdden

10 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom:

- fod gan y Cyngor strwythur atebolrwydd clir ar gyfer gwasanaethau hamdden masnachol, ac mae system dangosfwrdd gwybodaeth reoli gynhwysfawr yn caniatáu i swyddogion fonitro perfformiad a data y gellir eu defnyddio.
- bod y gwasanaeth Hamdden yn defnyddio'r data hyn yn effeithiol. Er enghraifft, mae'n defnyddio data ynglŷn â defnydd o’r gwasanaeth i benderfynu a ddylid lleihau neu ehangu dosbarth ffitrwydd neu wasanaeth penodol. Mae hefyd yn defnyddio tueddiadau o ran niferoedd aelodaeth hamdden i lywio ymgyrchoedd a chynigion marchnata.
- bod swyddogion a’r Pennaeth Gwasanaethau yn monitro ac yn herio perfformiad mewn cyfarfodydd rheolaidd ar lefel gwasanaeth. Caiff perfformiad hamdden hefyd ei adolygu gan y Tîm Cynllunio a Pherfformiad Strategol a'i graffu ar sail eithriad.
- nad oes unrhyw enghreifftiau diweddar o gyflwyno adroddiadau hamdden i'r Pwyllgor Craffu. Fodd bynnag, mae gan gynghorwyr fynediad at ddata perfformiad hamdden a dangosodd y cynghorwyr y buom yn siarad â hwy ddealltwriaeth dda o'r gwasanaeth a'i berfformiad.
- bod heriau gwasanaethau blynyddol hefyd yn rhoi cyfle i uwch swyddogion a chynghorwyr graffu ar berfformiad hamdden a'i herio.
- y bydd trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer y cwmni masnachol awdurdod lleol arfaethedig yn cynnwys goruchwyliaeth gan Fwrdd Llywodraethu Strategol a Phwyllgor Craffu, yn ogystal â rheoli contractau'n rheolaidd a chynnwys cynghorwyr a swyddogion ar fwrdd y cwmni. Bydd y trefniadau hyn yn cael eu datblygu'n fwy cyflawn ar ôl i'r Cyngor benderfynu pa un a ddylid bwrw ymlaen â'r cynigion.

## Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn fodlon â'r gwasanaeth hamdden ac mae'r Cyngor yn defnyddio adborth gan gwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu'r gwasanaeth

11 Wrth ddod i'r casgliad hwn, gwelsom:

- fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'n harolwg[4] yn fodlon â gwasanaethau hamdden Sir Ddinbych:
  – mae 72% o'r farn bod ansawdd y gwasanaeth wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf
  – mae 85% o'r farn bod y gwasanaeth yn cynnig gwerth da am arian
- bod gan y rhan fwyaf o'r bobl y buom yn siarad â hwy lawer o wybodaeth am wasanaethau hamdden lleol:
  – mae 82% yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol
  – dywedodd 90% ei bod yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt
- bod y Cyngor yn ymgysylltu'n rhagweithiol â defnyddwyr gwasanaethau a gall ddangos ei fod yn defnyddio adborth gan gwsmeriaid i lywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Er enghraifft, wrth wella ei ystafelloedd ffitrwydd, ymgynghorodd y Cyngor â defnyddwyr gwasanaethau hamdden ar y cyfarpar a'r cynllun arfaethedig gan newid y cynlluniau yn sgil awgrymiadau'r bobl.

[4] Ym mis Chwefror a mis Mawrth 2019, gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru gynnal arolwg i gasglu barn dinasyddion am wasanaethau hamdden yn Sir Ddinbych. Caiff ganlyniadau'r arolwg eu crynhoi yn Atodiad 1.

# Atodiadau

## Ffeithlun canlyniadau'r arolwg

Arddangosyn 2: ffeithlun canlyniadau'r arolwg

### GWASANAETHAU HAMDDEN CYNGOR SIR DDINBYCH

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Mae cynghorau'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau hamdden ar gyfer eu cymunedau, gan gynnwys canolfannau hamdden a chanolfannau chwaraeon. Ond mae toriadau cyllid yn golygu bod llawer o gynghorau yn newid y ffordd y cynigir y gwasanaethau hyn. Fe wnaethom greu arolwg er mwyn gofyn barn dinasyddion ar wasanaethau hamdden Sir Ddinbych.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein rhwng 20 Chwefror a 24 Mawrth 2019. Cafodd ei hyrwyddo gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyngor drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fe wnaethom ni hefyd ymweld â saith o Ganolfannau Hamdden y Cyngor lle buom yn siarad â defnyddwyr y canolfannau hamdden. Cawsom gyfanswm o 162 o ymatebion. Mae'r canlyniadau isod wedi eu seilio ar nifer yr ymatebion i bob cwestiwn.

**Mae 72% o'r ymatebwyr o'r farn bod ansawdd cyffredinol y cyfleusterau hamdden yn Sir Ddinbych wedi gwella yn y ddwy flynedd diwethaf**

"Rwy'n mwynhau dod i'r ganolfan hamdden"

"Daliwch ati gyda'r gwaith da! Roeddwn i'n arfer defnyddio cyfleusterau hamdden preifat ond ni fyddwn yn mynd yn ôl nawr"

**Mae 71% o'r ymatebwyr o'r farn bod y Cyngor yn codi tâl sy'n llai na'r hyn y byddent yn ei dalu i ddefnyddio cyfleusterau hamdden preifat**

"Da iawn ar gyfer fy iechyd"

**Mae 85% o'r ymatebwyr o'r farn bod cyfleusterau hamdden y Cyngor yn cynnig gwerth da am arian**

"Canolfan fach ond cyfeillgar"

**Mae 82% o'r ymatebwyr yn gwybod pa wasanaethau'r Cyngor sydd ar gael yn eu hardal nhw**

"Mae'r gwasanaeth atgyfeirio ar gyfer adsefydlu cardiaidd yn ardderchog ac mae'n cynnig gwerth da iawn am arian"

**Dywedodd 90% o'r ymatebwyr ei bod yn hawdd dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau hamdden y Cyngor**

**Dywedodd 47% o ymatebwyr nad ymgynghorwyd â hwy yn effeithiol ar y newidiadau i wasanaethau hamdden. (Mae profiad SAC yn awgrymu bod y ganran hon yn eithaf nodweddiadol)**

"Gwasanaeth gwych a hanfodol! Staff sy'n barod iawn eu cymwynas ac sy'n cynnig gwasanaeth personol"

**Y rhesymau mwyaf cyffredin dros ddewis defnyddio gwasanaethau hamdden y Cyngor yw:**

"Canolfan daclus a staff cyfeillgar"

**37%** lleoliad cyfleus

**12%** cost resymol

**11%** dim dewisiadau lleol eraill

"Rwy'n fodlon iawn â'r gwasanaeth. Mae'r prisiau ar gyfer pobl dros 60 oed yn dda iawn – prisiau gostyngedig a mynediad am ddim i'r pwll nofio"

**Y cyfleusterau hamdden y mae'r ymatebwyr yn eu defnyddio'n fwyaf aml yw:**

**58%** y gampfa

**56%** pwll nofio

**27%** dosbarthiadau ffitrwydd

"Mae'r staff yn dda iawn. Mae bob amser yn lân yno, gan gynnwys y cawodydd. Wedi'i redeg yn dda"

"Mae'r staff yn wych – maen nhw'n adnabod pawb – mae fel teulu"

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cefnogi'r Archwilydd Cyffredinol fel gwarchodwr y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru yn deall pa un a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus Cymru yn deall sut i wella canlyniadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn www.audit.wales/cy

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru